| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | Polisi Diogelu ac Asesiad Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth Cam 1 (Awst 25) |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | DCEO Profiadau Pobl a Diwylliant | | |
| **Ymgynghoriad/ Ymgynghori:** | Y Grŵp Diogelu | | |
| **Dyddiad Cymeradwyo /**<br>Date Approved | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | *Grŵp Diogelu Awst 2025 Llywodraethwr Cyswllt Diogelu* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *3 Medi 2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | *Amherthnasol* |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | *Amherthnasol* |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | *Bwrdd Llawn yn unig oherwydd dyddiadau Adolygiad 2025* |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | Diwrnod gwybodaeth y Llywodraethwyr (19 Medi) a'r Bwrdd Llawn 15 Hydref 2025 |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Dyddiad Adolygu:** | Mehefin 2026 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

## Tabl Cynnwys

### Polisi Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed


| | |
|---|---|
| Diben | 3 |
| Cwmpas | 3 |
| Prif Egwyddorion | 3 |
| Diffiniadau | 4 |
| Cyfrifoldebau | 5 |
| Hyfforddi a Datblygu | 8 |
| Rhannu Gwybodaeth | 9 |
| Dysgu yn y Gwaith a Phrofiad Gwaith | 9 |
| Hysbysiad Medr | 10 |
| Adolygu | 10 |


### Gweithdrefn Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 12 |
| Rhoi Gwybod am Bryderon | 12 |
| Honiadau yn Erbyn Cydweithwyr | 12 |
| Y Gymraeg | 15 |
| Atodiadau | 16. |

**Polisi Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed**

## 1. Diben

1.1 Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel i'w holl ddysgwyr. Mae'r ymrwymiad i Ddiogelu Plant, Pobl ifanc ac Oedolion sy'n Agored i Niwed yn cael ei lywio gan ddeddfwriaeth gyffredinol a chanllawiau cyfredol Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru Cydweithio i Ddiogelu Pobl:. Cod Ymarfer Diogelu, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ac adlewyrchu darpariaeth ein cwricwlwm, Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg (Adran Addysg).

1.2 Bydd Coleg Cambria yn cydymffurfio â gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 a chanllawiau statudol, gan weithio mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill i sicrhau diogelwch a lles ei ddysgwyr ym mhob amgylchedd dysgu, gan gynnwys canolfannau allgymorth, dysgu yn y gwaith a llety yn Llysfasi.

1.3 Nod y polisi hwn darparu pob gweithiwr gyda'r wybodaeth angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu ac i sicrhau arfer da cyson.

## 2. Cwmpas

2.1 Mae diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sydd mewn perygl yn gyfrifoldeb i bawb. Mae gan bawb sy'n dod i gysylltiad â myfyrwyr a'u teuluoedd eu rhan i'w chwarae.

Mae gan y Coleg ddyletswydd foesol a statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl. Rydym yn ymdrechu i ddarparu amgylchedd diogel a
chroesawgar lle mae'r holl ddysgwyr yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi, a gallwn gydnabod pan fyddant yn agored i niwed ac yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth pan fo angen.

2.3 Mae'r polisi a'r weithdrefn yn nodi trefniadau'r Coleg ar gyfer diogelu ac maent yn berthnasol i holl agweddau ein gwaith ac i bawb sy'n gweithio i'r Coleg gan gynnwys gweithwyr parhaol a thros dro, gweithwyr asiantaeth, contractwyr, gwirfoddolwyr a Llywodraethwyr.

## 3. Prif Egwyddorion

3.1 Rydym yn falch o feithrin ethos ledled ein Coleg bod diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb. Rydym wedi ymrwymo i greu diwylliant o wrando ar ein myfyrwyr a siarad â nhw mewn modd sy'n briodol i'w hoedran, eu dealltwriaeth a'u hanghenion unigol.

3.2 Mae iechyd, diogelwch a lles yr holl blant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed sy'n ymwneud â chyrsiau neu weithgareddau sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Coleg, yn un o brif flaenoriaethau'r Coleg. Wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, byddwn felly'n:

- Defnyddio dull ataliol i warchod plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed rhag anaf neu niwed posibl.
- Cymryd yr holl gamau priodol i fynd i'r afael â phryderon am les plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

- Gweithio i bolisïau a gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt mewn partneriaeth lawn ag asiantaethau lleol eraill sy'n cyfrannu at weithio amlasiantaethol yn unol â chanllawiau statudol.

- Gweithio gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac oedolion agored i niwed i'w gwarchod rhag niwed.

- Cynllunio, gweithredu, monitro ac adolygu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y mwyaf posibl yn cael ei wneud i ddarparu amgylchedd diogel i blant, bobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn y coleg.

- Cymryd yr holl fesurau rhesymol i sicrhau bod y perygl o niwed i les plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn cael ei leihau trwy'r camau priodol canlynol:

• Asesiadau a rheoli risg
• Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch
• Dethol cydweithwyr, recriwtio, ymsefydlu, goruchwylio a hyfforddi
• Creu a hyrwyddo diwylliant gweithio agored
• Hyrwyddo'r Polisi Chwythu Chwiban a hyfforddiant
• Dulliau i roi gwybod am bryderon.

- Gwneud y Polisi a Gweithdrefn Diogelu ar gael ar wefan y Coleg.

- Adolygu'r Polisi a Gweithdrefn Diogelu yn flynyddol, neu wrth i ddigwyddiadau a deddfwriaeth newid a'u cyflwyno i gael eu cymeradwyo gan y corff llywodraethu cyfan.

## 4. <u>Diffiniadau</u>

4.1 Mae'r term "plentyn" yn cyfeirio at unrhyw unigolyn dan 18 oed (Deddf Plant 1989 ac Adran 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Mae felly'n cyfeirio at bob dysgwr hyd at 18 oed.

4.2 Yn y polisi, mae'r **term 'person ifanc'** yn cael ei ddefnyddio, gan gydnabod fod y rhan fwyaf o
ddysgwyr wedi cyrraedd yr isafswm oedran gadael ysgol o 16 oed pan maent yn ymuno â'r Coleg.

4.3 Mae'r term "<u>Plentyn Agored i Niwed</u>" yn disgrifio unigolyn hyd at 18 oed sy'n profi cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed neu mewn perygl o hynny; ac sydd ag anghenion gofal a chymorth (boed yr awdurdod yn bodloni unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio).

4.4 Mae'r term "Oedolyn Agored i Niwed" yn cyfeirio at unrhyw unigolyn 18 oed a hŷn sydd angen gwasanaethau gofal yn y gymuned oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran, salwch ac sydd yn methu gofalu amdanynt eu hunain, neu a allai fod yn methu gwneud hynny, neu'n methu ag amddiffyn eu hunain rhag niwed sylweddol neu gael eu hecsbloetio'n ddifrifol.

4.5 Lle cyfeirir at ddysgwyr yn y ddogfen hon, mae hynny'n cynnwys plant ac oedolion.

## 5. Cyfrifoldebau

Bydd y Coleg yn sicrhau bod y dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'n bod yn gwrando arnynt, a'u bod yn gwybod at bwy i fynd os ydynt yn poeni neu mewn anhawster.

### 5.1 Mae gan Bob Cydweithiwr:

- Ddyletswydd gofal unigol ac ar y cyd i sicrhau bod amgylchedd diogel yn cael ei ddarparu lle gall plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl ddysgu.
- Mae'n gyfrifoldeb ar yr holl gydweithwyr i ymgyfarwyddo â'r Polisi hwn a'r Gweithdrefnau sy'n mynd law yn llaw ag o, ac i roi gwybod yn syth am unrhyw bryderon, ni waeth pa mor fach neu ddibwys y gall ymddangos.
- Mae Ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i'w lawrlwytho am ddim ac anogir pob cydweithiwr i wneud hynny er hwylustod cyfeirio wrth brofi pryder diogelu o unrhyw fath. Gellir dod o hyd i'r gweithdrefnau ar-lein hefyd yn https://diogelu.cymru/cy/
- Mae'n ofynnol i bob cydweithiwr ddilyn y gweithdrefnau Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion sydd mewn Perygl a nodir yn y ddogfen polisi a gweithdrefnau hon.
- Rhaid i unrhyw un sy'n gweithio i'r Coleg hysbysu eu rheolwr os ydyn nhw neu unrhyw oedolyn sy'n byw yn eu cartref yn dod yn destun honiad sy'n ymwneud â phryder diogelu neu gam-drin yn erbyn plentyn, person ifanc neu oedolyn sy'n agored i niwed. Dylai'r Rheolwr gysylltu â'r Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant ar ôl derbyn datganiad. Os oes gan unrhyw un amheuaeth a yw'r sefyllfa neu'r honiad yn berthnasol, dylent chwilio am gyngor gan y Person Diogelu Dynodedig. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar Dudalen Gwasanaethau Dysgwyr Happeo trwy'r ddolen Cymorth i Fyfyrwyr.

5.2 Mae'r **Corff Llywodraethu** wedi ymrwymo i sicrhau bod y Coleg yn:

- Penodi aelod annibynnol o'r corff llywodraethu fel Llywodraethwr Cyswllt ar gyfer Diogelu
- Codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â diogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn y Coleg
- Darparu amgylchedd diogel i blant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed
- Adnabod plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol a'i fod yn gweithredu'n briodol fel bod dysgwyr o'r fath yn cael eu cadw'n ddiogel yn y Coleg
- Meddu ar weithdrefn ar gyfer adrodd ac ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn cydweithwyr, dysgwyr eraill a gwirfoddolwyr
- Gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel
- Penodi cydweithiwr â digon o awdurdod i arwain y cyfrifoldeb am ddiogelwch plant, diogelu a'r ddyletswydd Prevent
- Unioni unrhyw ddiffygion neu wendidau o ran trefniadau diogelu sy'n dod i sylw'r Corff Llywodraethu

5.3 **Bydd y Llywodraethwr Penodedig yn gyfrifol hefyd am oruchwylio cydweithredu ag asiantaethau** priodol yn gysylltiedig â honiadau diogelu yn erbyn Deiliad Swydd Uwch. Bydd unrhyw ymchwiliad sydd ei angen yn cael ei oruchwylio gan y llywodraethwr hwn, a fydd yn cymryd cyngor a chefnogaeth allanol berthnasol ac yn sicrhau cyfathrebu rhwng partïon a darpariaeth amserol o wybodaeth i gynorthwyo ymholiadau.

5.4 **Mae gan y Dirprwy Brif Weithredwr (Profiadau Pobl a Diwylliant)** gyfrifoldeb gyffredinol am ddiogelu yn y Coleg; gyda chefnogaeth y **Pennaeth**

**Gwasanaethau Dysgwyr sef y Person Diogelu Dynodedig (PDD), a'r Rheolwr Diogelu a Phreswyl yn gweithredu fel Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig (DDSP).**

Mae manylion y deiliaid rolau a enwir wedi'u nodi yn atodiad 2 i'r polisi hwn.

5.5 **Mae'r PDD yn gyfrifol am ddiogelu, amddiffyn** plant a Prevent yng Ngholeg Cambria, ac mae'n rhaid iddo:

- Sicrhau bod pawb sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli yn y coleg yn deall y polisi a'r gweithdrefnau Diogelu hyn ac yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon am les unrhyw un.
- Sicrhau bod pob cydweithiwr a gwirfoddolwr yn derbyn hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd ar adnabod, ymateb a rhoi gwybod am bryderon, o leiaf bob dwy flynedd.
- Gweithredu fel pwynt cyswllt unigol ar gyfer asiantaethau allanol, gan gynnwys y bwrdd diogelu rhanbarthol (Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru) a'r hwb diogelu amlasiantaethol yr awdurdodau lleol.
- Cyfranogi pan mae Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth ar waith ar gyfer person ifanc.
- Gweithio'n agos gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr Profiadau Pobl a Diwylliant i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n llawn am unrhyw bryderon ynghylch diogelu sefydliadol ac arferion diogelu plant/oedolion ynghyd ag achosion arwyddocaol a all godi.
- Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r corff llywodraethu sy'n adolygu sut mae'r dyletswyddau wedi'u cyflawni, gan gynnwys hyfforddiant cydweithwyr ac unrhyw argymhellion.
- Sicrhau bod cydweithwyr a gwirfoddolwyr newydd yn derbyn hyfforddiant fel rhan o gyfnod ymsefydlu ehangach ar weithdrefnau diogelu o fewn y coleg a bod ganddynt fynediad at y ddogfen bolisi hon.

5.6 Mae'n rhaid i'r **Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig:**

- Gymryd rôl arweiniol wrth weithredu polisïau a gweithdrefnau diogelu'r coleg, gan sicrhau bod pob mater diogelu ac amddiffyn plant/oedolion sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc neu oedolion sy'n aelodau o gymuned y coleg yn cael ymateb priodol.
- Gwneud yn siŵr bod pob myfyriwr a rhiant/gofalwr yn gwybod gyda phwy y gallant siarad os oes ganddynt bryder lles a deall pa gamau y bydd y coleg yn eu cymryd mewn ymateb.
- Sicrhau bod ymgeiswyr cwrs sydd wedi datgelu collfarn droseddol yn cael eu hasesu'n briodol ac yn gadarn trwy ymchwilio i ddatgeliadau ac asesu risgiau cysylltiedig i'w hunain ac i eraill yn seiliedig ar eu cais i astudio.
- Cysylltu â chyflogwyr a sefydliadau hyfforddi sy'n derbyn myfyrwyr o'r coleg ar leoliadau tymor byr neu hirdymor (prentisiaethau, hyfforddeiaethau, interniaid â chymorth a lleoliadau gwaith) i sicrhau bod gweithdrefnau diogelu priodol ar waith.
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Technoleg i sicrhau amgylchedd diogel ar-lein drwy hidlo a monitro gweithgaredd gan ddefnyddio meddalwedd briodol ac ymchwilio i unrhyw gofnodion adrodd digwyddiadau ar-lein
- Sicrhau bod pob pryder diogelu yn cael eu derbyn a'u cofnodi'n gywir ac yn ddiogel yn unol â rheoliadau diogelu data
- Cysylltu â Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a hwb diogelu amlasiantaethol yr awdurdodau lleol (MASH) fel y bo'n briodol
- Bod yn gyfarwydd â materion sy'n ymwneud ag amddiffyn a cham-drin plant/oedolion, cadw i fyny â datblygiadau newydd yn y maes hwn a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu o fewn y Tîm Diogelu a chymuned ehangach y coleg

5.7 Mae **Swyddogion Lles** yn gyfrifol am y canlynol:

- Darparu cyswllt rheng flaen i ddweud am bryderon diogelu
- Darparu cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant i gydweithwyr a myfyrwyr
- Ystyried a yw pryder yn fater diogelu ai peidio. Gall hyn olygu rhywfaint o “wirio” gwybodaeth i ddechrau.
- Atgyfeirio achosion o gamdriniaeth a amheuir, honiadau o gam-drin neu ddigwyddiadau o niwed i'r asiantaethau perthnasol
- Cynnal cofnodion cywir o unrhyw atgyfeiriad, cwyn neu bryder diogelu (hyd yn oed pan nad yw’r pryder yn arwain at atgyfeiriad) yn unol â rheoliadau diogelu data
- Ymdrin ag achosion unigol, gan gynnwys mynychu cynadleddau achosion a chyfarfodydd adolygu fel y bo’n briodol
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Rheolwr Diogelu a Phreswyl (RhDPh) a'r PDD am achosion o gamdriniaeth a amheuir, honiadau o gam-drin neu ddigwyddiadau o niwed.

5.8 Mae gan y **Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant** y cyfrifoldebau canlynol:

- Sicrhau bod recriwtio cydweithwyr (parhaol a dros dro) a defnyddio gwirfoddolwyr yn bodloni canllawiau recriwtio mwy diogel, gan gynnwys defnyddio gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA).
- Sicrhau bod pob cydweithiwr a gwirfoddolwr yn derbyn hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd ar adnabod, ymateb a rhoi gwybod am bryderon a bod cofnod hyfforddi yn cael ei gadw. Rhaid cynnal hyfforddiant atgoffa bob dwy flynedd o leiaf
- Sicrhau bod y mecanweithiau'n bodoli i sicrhau bod defnyddio cydweithwyr dros dro ac asiantaeth yn cydymffurfio â chyfrifoldebau a gweithdrefnau diogelu'r coleg.
- Sicrhau bod asesiad risg penodol yn cael ei gwblhau mewn perthynas ag addasrwydd cydweithiwr i weithio neu wirfoddoli yn y coleg gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl pan fo datgeliadau o gollfarnau troseddol a/neu bryderon diogelu.
- Cysylltu â'r Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol os bydd honiad yn erbyn ymarferydd neu berson mewn swydd o ymddiriedaeth - Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru.

5.9 Mae’r **Tîm Adnoddau Dynol** yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio a dethol y Coleg yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a sicrhau bod yr holl wiriadau priodol, gan gynnwys gwiriadau uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gwirio’r “rhestr gwahardd” a gynhelir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn cael eu cynnal ar gydweithwyr newydd, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr a fydd yn gweithio neu’n dod i gysylltiad â phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.
- Cofnodi a monitro unrhyw "bryderon lefel isel" a godir am gydweithwyr a nodi unrhyw batrymau ymddygiad a allai fod yn ffurfio ar gyfer gweithredu.
- Cyfeirio achosion o ymddygiad proffesiynol annerbyniol honedig, anallu proffesiynol difrifol a throseddau perthnasol i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Yn unol â Rheoliadau'r Cyngor Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, mae gan y coleg ddyletswydd i gyfeirio achosion ato ble mae wedi diswyddo person cofrestredig, neu ble gallent fod wedi diswyddo person cofrestredig oni bai ei fod wedi ymddiswyddo. Mae’r Tîm AD yn gyfrifol am wneud atgyfeiriadau o’r fath.

5.10 Mae’r **Rheolwr Diogelu a Phreswyl** yn gyfrifol am:

- Ddiogelu myfyrwyr preswyl a sicrhau bod prosesau adrodd yn bodloni gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

- Bydd gofyn i bob cydweithiwr sy'n gweithio ac yn darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth mewn lleoliadau preswyl gael gwiriad DBS bob tair blynedd yn unol â'r arfer a argymhellir gan AGC.

5.11 **Person â Chyfrifoldeb – Meithrinfa Toybox** - Bydd Person â Chyfrifoldeb Dynodedig Meithrinfa Toybox yn gyfrifol am:

- Ddiogelu plant sy'n mynd i'r feithrinfa a'r cynllun chwarae yn ystod y gwyliau
- Sicrhau bod prosesau adrodd yn bodloni gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

- Bydd gan y lleoliad ei bolisi ei hun ynghylch diogelu plant, yn unol â gofynion ei gofrestru.

**5.12** Bydd y **Tîm Gwasanaethau Dysgwyr** yn:

- Darparu cymorth priodol, naill ai'n uniongyrchol neu drwy atgyfeiriad i ddysgwyr lle mae honiad o fater diogelu gwirioneddol wedi'i gadarnhau.
- Os gwneir honiad rhwng cyfoedion, yna bydd pob dysgwr yn cael eu cefnogi gan eiriolwr o'r Tîm Gwasanaethau Dysgwyr tra bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal.
- Mae'r Coleg yn cydnabod y gallai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed oherwydd eu hoedran, eu hanabledd neu eu salwch fod mewn perygl o brofi, neu wedi profi camdriniaeth.
- Bydd y Coleg yn darparu canllawiau ac addysg briodol i ddysgwyr am gam-drin, a sut i'w atal, trwy ei system cymorth bugeiliol.

**5.13 Mae Myfyrwyr** yn gyfrifol am:

Ddatgelu unrhyw gollfarn droseddol heb ei threulio neu achosion troseddol parhaus, gan fod y wybodaeth hon yn hanfodol ar gyfer ein proses dderbyn fwy diogel a'n dyletswyddau diogelu parhaus. Er ei bod yn cael ei thrin yn gyfrinachol, gall dyletswydd hollbwysig y Coleg i ddiogelu olygu bod angen gweithredu ar y wybodaeth hon, gan gynnwys ei rhannu ag asiantaethau eraill. I'r gwrthwyneb, gall y Coleg dderbyn gwybodaeth o'r fath gan asiantaethau allanol; os bydd hyn yn codi amheuaeth ynghylch addasrwydd dysgwr, bydd trafodaethau'n dilyn ein Polisi ar gyfer Datgeliadau Troseddol Heb eu Treulio. Mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 yn arbennig o berthnasol yma, gan droseddoli cynnwys niweidiol newydd ar-lein (e.e. rhannu delweddau heb ganiatâd, seiber-fflachio). Mae gan ddysgwyr gyfrifoldeb i ddeall bod ymddygiad sy'n dod o dan y Ddeddf hon yn effeithio ar ddiogelwch a llesiant cymuned y coleg, ac mae unrhyw gollfarnau neu achosion yn hanfodol ar gyfer ein hasesiad risg i gynnal yr amgylchedd diogel hwn. Ar ben hynny, bydd dysgwyr hefyd yn gyfrifol am lynu wrth eu cynlluniau diogelwch neu asesiadau risg unigol.

**5.14 Mae Isgontractwyr** yn gyfrifol am rannu pryderon diogelu gyda'r Tîm Diogelu, neu yn yr Adroddiad Diogelu Misol.

## 6. <u>Hyfforddi a Datblygu</u>

6.1 Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Corff Llywodraethu, Uwch Ddeiliaid Swyddi a'r holl gydweithwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, ymgymryd â hyfforddiant i roi'r sgiliau iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn effeithiol.

6.2 Mae'n ofynnol i holl gydweithwyr ac aelodau'r corff llywodraethu gwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol (e-ddysgu) cyn dechrau yn y Coleg a bob dwy flynedd ar ôl hynny. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei ategu gan ddigwyddiadau

hyfforddi ar y safle a diweddariadau diogelu a gwarchod, a chyfarfodydd cydweithwyr.

6.3 Mae'n ofynnol i gydweithwyr sydd wedi aseinio i gyfrifoldebau Diogelu, gwblhau Hyfforddiant Grŵp C adnabyddedig bob dwy flynedd.

6.4 Trwy'r rhaglen diwtorial mae'n ofynnol i bob myfyriwr gwblhau modiwlau diogelu sy'n cynnwys Gwerthoedd Prydeinig, Prevent a Radicaleiddio, Cam-drin rhwng Cyfoedion a Diogelwch Ar-lein.

## 7. Rhannu Gwybodaeth

7.1 Bydd y cydweithwyr i gyd yn deall bod materion diogelu yn gofyn am lefel uchel o gyfrinachedd. Dim ond gyda'r Tîm Diogelu y dylai cydweithwyr drafod pryderon. Bydd yr unigolyn hwnnw wedyn yn penderfynu gyda phwy arall y mae angen rhannu'r wybodaeth a bydd yn gwneud hynny ar sail 'angen cael gwybod'.

7.2 Bydd gwybodaeth am ddiogelu yn cael ei chadw a'i thrin yn unol ag Amserlen Cadw Gwybodaeth y Coleg am 20 mlynedd. Bydd rhannu gwybodaeth yn digwydd yn brydlon ac yn ddiogel a lle bo angen gwneud hynny a bod hynny'n gymesur. Bydd y wybodaeth yn berthnasol, yn ddigonol ac yn gywir.

7.3 Bydd penderfyniadau rhannu gwybodaeth yn cael eu cofnodi p'un a phenderfynir rhannu'r wybodaeth ai peidio. Bydd unrhyw wybodaeth ddiogelu ar ffurf electronig wedi'i diogelu gan gyfrinair ac ar gael i unigolion perthnasol yn unig.

7.4 Bydd y PDD yn cael caniatâd y dysgwr a/neu'r rhieni i rannu gwybodaeth sensitif yn y coleg neu gydag asiantaethau allanol. Gall y PDD rannu gwybodaeth heb ganiatâd pan fydd rheswm da dros wneud hynny, a bydd yn cofnodi'r rheswm dros beidio â chael caniatâd.

7.5 Rhaid i gydweithwyr beidio â datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â myfyriwr, eu lles neu wybodaeth bersonol heb ganiatâd penodol i wneud hynny gan y Person Diogelu Dynodedig (DSP) neu Ddirprwy Berson Diogelu Dynodedig. Mae'r amod hwn yn cynnwys lle gall cydweithiwr gael cais am wybodaeth gan riant, gwarcheidwad neu'r heddlu. Mae'n ofynnol i'r heddlu ddarparu ffurflen gais am wybodaeth berthnasol wedi'i chwblhau i'r coleg.

7.6 Er bod gan y coleg ddyletswydd i gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), a byddwn yn gweithredu'n unol â rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon at ddibenion diogelu a diogelu myfyrwyr sydd mewn perygl o niwed.

## 8. Dysgu yn y Gwaith a Phrofiad Gwaith

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyflogaeth drwy ddysgu yn y gwaith neu sy'n cwblhau lleoliad gwaith yn y sectorau addysg, iechyd neu ofal cymdeithasol gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau diogelu eu cyflogwr. Mae gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn rhagofyniad ar gyfer dechrau unrhyw leoliad o'r fath. Bydd Coleg Cambria hefyd yn cymhwyso'r polisi hwn i sicrhau bod diogelu a llesiant y myfyriwr yn hollbwysig drwy gydol eu lleoliad.

8.2 Cyfrifoldeb y coleg, nid y cyflogwr, yw arwain unrhyw gamau gweithredu, ymchwiliad neu gymorth sy'n gysylltiedig â diogelu prentis neu fyfyriwr sy'n ymgymryd â lleoliad gwaith.

8.3 Mae'r coleg yn cydnabod ei ddyletswydd i fetio a sicrhau diwydrwydd dyladwy wrth ddod o hyd i gyflogwyr a'u cymeradwyo at ddibenion gweithgaredd lleoliad gwaith. Mae'r coleg yn gyfrifol am unrhyw asesiad risg, gwirio yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyflogwr a monitro'r lleoliad gwaith.

Ni ddylid gadael dysgwyr ar Brofiad Gwaith heb oruchwyliaeth yn ystod eu lleoliad. Anogir pob darparwr lleoliadau i ddarllen y polisi hwn a chyfeirio unrhyw faterion diogelu at y Tîm Diogelu.

Mae gan y Coleg ddisgyblion ysgol ar y campws sy'n mynychu dosbarthiadau naill ai ar wahân neu gyda myfyrwyr Coleg Cambria. Bydd y Coleg yn gweithredu o fewn y Safonau Diogelu ac Amddiffyn Plant a osodwyd gan yr ysgolion a nodir yn eu protocolau. Yn benodol, bydd pob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau 14-19 gyda'r coleg, ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant, yn cael eu hystyried yn yr un modd â phob myfyriwr arall wrth fynychu cyrsiau gyda'r coleg. Felly byddant yn dod o dan awdurdodaeth Swyddog Diogelu/Lles y coleg, sef y swyddog y dylid cyfeirio pob mater diogelu ac amddiffyn plant atynt ar unwaith.

## 9 Hysbysiad Medr

9.1 Mae'n ofynnol i Goleg Cambria, trwy ei delerau ariannu gyda Medr (Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil), roi gwybod i Medr am ddigwyddiadau diogelu difrifol. Mae hyn yn berthnasol i ddarparu addysg i fyfyrwyr 16 i 18 oed, neu unrhyw berson ifanc 19 i 25 oed sy'n destun Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

9.2 Bydd hysbysiad i Medr gan y PDD yn cael ei wneud yn yr amgylchiadau canlynol a ystyrir fel digwyddiadau adroddadwy gan Medr:
Marwolaeth ar eiddo sy'n berchen i'r darparwr neu a brydlesir ganddynt
Marwolaeth tra dan oruchwyliaeth darparwr
Marwolaeth o ganlyniad i weithredoedd darparwr
Niwed sylweddol i eiddo sy'n berchen i'r darparwr neu a brydlesir ganddynt
Niwed sylweddol tra dan oruchwyliaeth y darparwr
Niwed sylweddol o ganlyniad i weithredoedd darparwr; a/neu Ganfyddiadau crwner lle mae'r rheiny yn ymwneud â marwolaeth dysgwr ac yn datgelu gwendid systemig yn nhrefniadau rheoli a llywodraethu'r darparwr

## 10. <u>Adolygiad</u>

10.1 Bydd y polisi hwn a'r weithdrefn gysylltiedig yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cyflwyno i'r Bwrdd Llywodraethwyr i'w cymeradwyo. Bydd unrhyw newidiadau sy'n ofynnol yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol yn cael eu trafod gyda'r Corff Llywodraethu a'u hychwanegu at y polisi.

**Gweithdrefn Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae colegau a'u cydweithwyr yn rhan o'r system ddiogelu ehangach ar gyfer plant. Fel coleg, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda gofal cymdeithasol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill i hyrwyddo lles ein myfyrwyr a'u hamddiffyn rhag niwed.

1.2 Mae gan bob cydweithiwr ddyletswydd gofal ar y cyd ac yn unigol i sicrhau bod amgylchedd diogel yn cael ei ddarparu, yn gorfforol ac ar-lein, lle gall plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl ddysgu. Cyfrifoldeb pob cydweithwyr yw rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn syth, ni waeth pa mor fach neu ddibwys y mae'n ymddangos.
Mae'n bwysig bod pob cydweithiwr yn parhau i fod yn wyliadwrus ac yn arfer "chwilfrydedd proffesiynol" os oes ganddynt bryder am blentyn, person ifanc neu oedolyn sydd mewn perygl, waeth beth fo'r amgylchedd dysgu. Mae presenoldeb ac ymgysylltiad gweithredol ym mhob sesiwn a drefnwyd, boed ar y campws, oddi ar y campws neu yn y gweithle, yn bwysig nid yn unig ar gyfer dysgu ond hefyd ar gyfer diogelwch. Mae'n hanfodol ein bod ni'n gallu gweld a/neu ryngweithio'n ystyrlon â'n myfyrwyr i gael syniad o'u llesiant. Ystyrir bod presenoldeb digidol myfyriwr yn gyfwerth â'i bresenoldeb corfforol, ac mae'r un egwyddorion gwyliadwriaeth yn berthnasol.

1.3 Diben y Weithdrefn hon yw nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd yn unol â chanllawiau statudol a chanllawiau lleol, os oes pryder bod plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed.

1.4 Mae cam-drin ac esgeulustod yn fathau o gamdriniaeth. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn/oedolyn agored i niwed, a'u niweidio trwy eu taro neu fethu â gweithredu i atal niwed. Gall ddynion neu fenywod sy'n oedolion neu blant a phobl ifanc eraill gam-drin rhywun. Mae Gweithdrefnau Diogelu i Gymru 2019 yn cyfeirio at y categorïau camdriniaeth ac maent wedi'u rhestru yn Atodiad 1 y polisi hwn.

## 2. Rhoi Gwybod am Bryderon

2.1 Mae'n gyfrifoldeb ar bob cydweithiwr sy'n gweithio yn y Coleg i gofnodi ac atgyfeirio pryderon ynghylch diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, hyd yn oes os mai amheuon neu sïon a glywyd ar ddamwain ydynt. Gall plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed gael eu cam-drin o fewn y teulu, y gymuned, gan weithwyr (gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi i hyrwyddo eu lles a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth), ymwelwyr a chyd-fyfyrwyr.

2.2 Os yw plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed yn siarad ag aelod o staff am fater a allai arwain at gam-drin, dylai'r aelod o staff wrando'n ofalus, gan ddefnyddio'r canllawiau canlynol:

- dylid caniatáu i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i niwed siarad heb ymyrryd.
- ni ddylid byth bychanu na gorliwio'r mater.
- ni ddylid gwneud awgrymiadau.

- ni ddylid hyfforddi nac arwain y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i niwed mewn unrhyw ffordd.
- Dylid ei gwneud yn glir i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i niwed mai siarad yn agored oedd y peth iawn i'w wneud.
- Dylid gofyn cwestiynau i gael dealltwriaeth eglur heb archwilio'n fanwl na chwestiynu, ni waeth pa mor gyfarwydd yw'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i niwed.
- Rhaid egluro na ellir cadw'r mater a godwyd yn gyfrinach ac y bydd angen ei gyfeirio at ddiogelu.
- Rhaid peidio â dangos emosiynau fel dicter, ffieidd-dod neu anghrediniaeth oherwydd gallai hyn atal y person rhag siarad os yw'n teimlo bod teimladau negyddol yn cael eu cyfeirio tuag atynt.
- Sicrhewch fod y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i niwed yn gwybod bod y mater yn cael ei gymryd o ddifrif.
- Gwnewch i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i niwed deimlo'n ddiogel heb achosi unrhyw bryder pellach iddynt.

2.3 Os yw cydweithiwr yn amau neu'n cael gwybod y gallai plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed fod wedi cael ei gam-drin, rhaid rhoi gwybod i'r Tîm Diogelu yr un diwrnod naill ai trwy atgyfeiriad ar lafar neu trwy ddefnyddio Ffurflen Atgyfeirio Diogelu'r Coleg trwy'r Botwm Diogelu ar Happeo. Mewn sefyllfa pan fo pryder ynghylch anffurfio organau cenhedlu benywod, rhaid rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r PDD (neu Ddirprwy) er mwyn atgyfeirio i'r heddlu yn unol â goblygiadau cyfreithiol.
Os na all cydweithwyr roi gwybod drwy'r ffurflen atgyfeirio ar OnTrack, dylent gysylltu â'r Tîm Diogelu drwy'r rhif ffôn 0300 30 30 009 neu diogelu@cambria.ac.uk.

2.4 Ar ôl ei atgyfeirio, mae Swyddog Lles yn gyfrifol am gael cofnod ysgrifenedig llawn o'r materion a godwyd o fewn 24 awr gan y cydweithwyr atgyfeiriol a fydd yn cynnwys:

- Enw a swydd yr unigolyn a roddodd wybod am y mater.
- Boed y mater yn ddatgeliad uniongyrchol gan blentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed, yn amheuaeth neu'n sgwrs a glywyd ar ddamwain.
- Cofnod ffeithiol o'r hyn a glywyd ar ddamwain neu beth gafodd ei ddatgelu, gan gynnwys unrhyw gwestiynau a oedd angen eu gofyn er mwyn rhoi dealltwriaeth eglur.
- Manylion am unrhyw arsylwadau (gan gynnwys arwyddion corfforol o gam-drin amlwg).
- Rhaid i'r cofnod ysgrifenedig gynnwys unrhyw farn neu ddehongliad personol o'r ffeithiau a rhaid i'r cydweithwyr atgyfeiriol ei lofnodi a'i ddyddio.

2.5 Ni ddylai'r cydweithiwr sy'n atgyfeirio drafod y mater gydag unrhyw un arall oni bai am Swyddog Lles, DPDD neu PDD. Bydd gwybodaeth fanwl am yr achos yn cael ei gyfyngu i'r Swyddog Diogelu, y DPDD neu'r PDD a'r rhieni/gofalwyr (os nad ydynt yn gysylltiedig). Gellir ceisio cyngor ac arweiniad gan weithwyr proffesiynol cymwys priodol yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod camau gweithredu a phenderfyniadau addas yn cael eu gwneud mewn perthynas â mater diogelu.
Bydd y cydweithiwr sy'n cyflwyno'r adroddiad yn cael gwybod am y cynnydd, ar gais, os ystyrir bod angen iddo wybod. Mae hyn ar gyfer diogelu plentyn, person ifanc neu oedolyn sydd mewn perygl yn barhaus.

## 3. Honiadau yn Erbyn Cydweithwyr

